

CYDYMAITH

YR

YSGOL SABBOTHOL:

CYLCHGRAWN MISOL AT WASANAETH YSGOLION
SABBOTHOL YR ANNIBYNWYR,

AM

1884-85.

DAN OLYGIAETH

R. THOMAS, GLANDWR; AC O. JONES, PWLLHELL.

CYFROL I.

PWLLHELL:

ARGRAFFWYD GAN RICHARD JONES, 19, HIGH STREET.

wythnos gyntaf a 3,000 yr ail. Oherwydd bod llyfrau cyfrif wedi mynd ar goll ni wyddys beth ddigwyddodd wedyn tan 1893 pan argraffwyd 1,200 a bu hwnnw'n gynnyrch rheolaidd am dair i bedair blynedd. Newidiwyd yr enw yn 1898 i *Yr Udgorn* ac ymddangosodd yn

rheolaidd bob wythnos tan ddiwedd ei oes yn 1952.

Yn 1889 daeth y papur Saesneg, *Pwllheli Chronicle*, allan i wasanaethu arfordir Bae Ceredigion o Lŷn i Feirionnydd ac ymddangosodd am bedair blynedd. Argraffwyd 500 o gopïau bob wythnos.

Yn 1899 yr oedd yr 'Inglis Côt', chwedl Emrys ap Iwan, yng nghapel y Methodistiaid Saesneg yn Ala Road, a oedd yn cael ei gadw ar ei draed trwy gefnogaeth Cymry Cymraeg, yn teimlo mor sicr o'i le, ac mor hyderus o'i ddyfodol, i anturio cyhoeddi newyddiadur misol, y *Pwllheli Home Messenger*, gyda Chymro yn olygydd. Richard Jones argraffodd yr archeb fisol o 250 o gopïau am y flwyddyn gyntaf.

Yn 1908 wele Seisnigeidd-rwydd yn cael ei hybu drachefn yn y dref drwy gyhoeddi, yn ystod tymor gwyliau'r haf, y *Pwllheli Chat*. Y golygydd oedd Fred Young, rheolwr Ystâd Andrews ym Mhwlheli, ac yn frodor o dde Lloegr, a'r argraffwr oedd Richard Jones. Hyd y gwn, dim ond un rhifyn sydd yn bod. Piti garw am hynny oblegid buasai cael bwrw golwg ar gyfres ohonynt yn darparu tystiolaeth i anthropolegwyr y dyfodol a fyddai'n awgrymu nad oedd y fath beth â'r iaith Gymraeg yn bod mewn cyfnod pan oedd tua 95% o'r bobl yn y lle yn ei siarad. Mae gennyf gof plentyn o'r papur yn ystod yr 1920au ond, erbyn yr 1930au, newidiwyd yr enw i *Pwllheli News*. Os oes rhywun yn gwybod am becyn o'r *Pwllheli Chat* neu'r *Pwllheli News* byddai'n dda cael gwybod.

Bu farw Owen Humphreys yn 1899 ac fe'i dilynwyd gan W. Llywelyn Ellis, Methodist arall. Un arall o'r un enwad a ddechreuodd ym Mhwlheli tua'r un adeg oedd David Caradog Evans, un a wasanaethodd y Methodistiaid yn arbennig fel argraffwr am hanner canrif. Cyn hir roedd gan y dref bedair gwasg pan ddechreuodd William Hughes, Caxton House, Methodist arall, argraffu. Pedair

gwasg lle nad oedd yr un ganrif ynghynt. Dyna gystal mcsur â dim o'r cynnydd ym mhwyisigrwydd argraffu yn y dref.

Parhaodd gwasg Richard Jones yn agored hyd farwolaeth ei fab, Chris Jones, yn 1972. Yn nechrau'r pumdegau cymerodd Herbert Thomas, Porthmadog, feddiant o argraffdy Caradog Evans. Roedd wedi cyhwyn newyddiadur wythnosol, y *South Caernarvonshire Leader*, ac ef a gaedd *Yr Udgorn* i lawr.

Cyn terfynu rhaid sôn am y gŵr nodedig a symudodd i Lanbedrog, rhyw gwta bedair milltir o Bwllheli, yn nechrau'r ganrif. J. Gwenogvryn Evans oedd hwnnw, yn a wnaeth gyfraniad goleuedig i ysgolheictod Cymru trwy gyhoeddi cyfres o destunau Cymraeg. Mae'n syndod cyn lleied o sylw sydd wedi ei roi i Gwenogvryn. Sefydlodd wasg law yn ei gartref ond wrth enwi Pwllheli fel y man yr argraffwyd nifer o'r testunau cyntaf, ceir awgrym mai yn y dref y gorffennwyd y gwaith. Byddai'n naturiol i Gwenogvryn droi at argraffwr profiadol am gymorth a phwy ym Mhwlheli a oedd yn fwy profiadol na Richard Jones. Yn sicr yr oedd gan hwnnw fwy o adnoddau, ond yn anffodus ni wyddys yn union beth a ddigwyddodd.

Mae gan y gof am sgwrs a gefais, tua deugain mlynedd yn ôl, â Chris Jones, mab Richard Jones. Yr oedd hwnnw'n rhy ifanc i wybod o'i brofiad ei hun beth ddigwyddodd ond cofiaf ef yn dweud fod ei dad wedi gwneud rhyw waith i Gwenogvryn. Pe bawn wedi medru rhagweld fy nhynged eleni mae'n siŵr y byddwn wedi gwneud mwy o'r cyfle hwnnw!

UDGORN RHYDDID

(THE TRUMPET OF FREEDOM.)

Newyddiadur Cenedlaethol Cymreig.

RHIF. I. CYF. I.

DYDD MERCHER IONAWR 4, 1888.

(REGISTERED FOR TRANSMISSION ABROAD.)

Pris Dimai.

Crofftwyr Gogleddbarth Ysgotland.

Yr wythnos ddiweddar ymgasglodd tua mil o breswylwyr ynys Lewis, gogledd Ysgotland, ac a aethant yn un fyddin, yn cael eu blaenori gan seindorf, tuag at fferm o'r enw Aignish, yr hon a ddalir gan Sais. Dywedir fod y fferm yn ddigon i gynnal o leiaf ddeugain o deuluoedd, ond wedi ei gosod i un dyn. Wedi rhoddi eu cwynion ger bron yr amaethwr, gan ddywedyd fod arnynt eisiau y fferm iddynt hwy a'u teuluoedd, ac y buasant yn talu yr un ardreth ag yntau am dani, rhoddasent iddo ryludd i ymualael o'r lle o fewn pedwar niwrnod ar ddeg, gan eu bod yn bwriadu meddianu y lle yr adeg hono. Wedi hyny aethant i fferm arall gyfagos gyda'r un neges. Mewn cyfarfod a gynnalwyd ganddynt ar yr achlysur, penderfynasant fyned yn mlaen nes adfeddiannu y tir a berthynai, fel yr haerent hwy, Fw tatau. Dyna y swm a glywir o wahanol

wyr yn gwneud gostyngiadau helaeth, yn wirfoddol, i gyfarfod â chaledi yr amseroedd. Cyfaddefwn hyny yn rhydd, ac ni fynem er dim atal ein teyrnged o ddioleth iddynt am eu dynoldeb. Ond y mae tirlfeddianwyr o stamp gwahanol; y rhai ydynt mor law-gauad a chrintanglyd, na chaniatant ond rhyw swllt y bunt o ostyngiad, pan na fuasai pedwar neu bum swllt, ar bob cyfrif, ond rhesymol, ac eraill mor anynol a chribinaidd ag i fynu cael y ffyring eithaf, ac eled stock y ffermwr, druan, o dan forthwyl yr arwerthwr o'u rhan hwy. Ni fuasai Deddf Dirol yn gofyn i'r tirlfeddianwr cydwybodol ostwng mwy nag a ddylai, yn wir, ni fuasai raid ei roddi mewn gweithrediad o gwbl, pe y bodolai dealltwriaeth rhyngddo a'i denantiaid; ond buasai yn gorfodi y meistr eulogaled i wneud ei ddyledswydd, yr hyn na wna'i heb hyny. Ffermwrwyr ymysgyddwch!

Arglwydd Salisbury ac Ymfudiaeth.

Gwelwn fod Arglwydd Salisbury y dydd o'r blaen yn siarad o blaid ymfudiaeth. Ond ai tybed mai ymfudiaeth yw y feddyginiaeth i'r marweidd-dra masnachol presennol? Credwn mai nad e. Cymerer siroedd Caernarfon a Meirionnydd. Onid oes ynddynt filoedd ar filoedd o erwau o dir digynyrech? Ac onid y rheswm am ei fod yn ddigynyrech yw, am nad yw yn cael ei osod am delerau y gellir ei drin fel ag iddo dalu i'r amaethwyr? Y mae yn Llyen ac Eifionydd yn unig waith i gan-oedd lawer yn ychwaneg i amaethu y tir; a phe y cedwid ychwaneg i amaethu y tir, ceid gwaith i ychwaneg o grefftwyr, a byddai yn rhaid cael mwy o faanachwyr; ac fe effeithiai hyny drachefn ar drafnidiaeth o'r tuallan i'r rhan hon or peri ynddi fywyd. Onid yw yr un peth yn wir am y Deyrnas yn gyffredinol? Pe y gosodid tiroedd y deyrnas ar delerau y

hanes hwn, a llawer o rai tebyg, fe welir fod y ddeddf sydd yn gwahanu gwyer a gragedd oddiwrth eu gilydd yn nhloty yr undeb yn ddeddf GREGLAWN a GWRTT-GRISTONOGOL. Y mae tlodion sydd wedi cyd-weithio yn galed a byw yn gynill; talu eu rhan o drethoedd a degymau; magu eu plant heb bwysio ar neb, ac yn eu hen ddyddiau yn gorfod gofyn am elusen blwyfol, neu droi eu hwynebau ar dloty yr undeb—y maent yn teimlo mor anwyl at eu gilydd a'r un arglwydd ac arglwyddes fedd y byd, ac ni ddylid eu "gwahanu" hyd y terfyn; ac y mae yn hen byd newid y ddeddf greglaw hon yn ei pherthynas a hen tlodion priod. Fel y mae, y mae deddf Frydain yn groes i ddeddf y nefoedd; ac fel y mae yn resyn meddwl, y ddeddf wiadol yw y bwystacaf yn ngolwg mloedd o Gristionogion moethus yr oes hon. O! na welid mwy o addysg a theimlad y Gwaredwr yn cael ei dlangos at tlodion y byd.